



Tywyswr - Theatr Pafiliwn y Rhyl

Mae Theatr Pafiliwn y Rhyl yn theatr brysur sydd wedi ennill gwobrau ac hefyd yn gartref i Fwyty a Bar 1891. Mae gennym raglen lawn o ddigwyddiadau a sioeau, gan ddenu enwau mawr a chynyrchiadau fel Jimmy Carr, Jason Manford, Chicago, Little Mix, ac Olly Murs i enwi dim ond rhai.

Tasgau Allweddol:

Mae'r tasgau nodweddiadol y gellir gofyn i chi eu gwneud wedi'u rhestru isod, a byddem yn darparu hyfforddiant llawn ym mhob agwedd:

- Cyfarch y gynulleidfa yn yr adeilad
- Gwerthu hufen iâ yn ystod yr egwyl, rhaglenni a chofroddion eraill
- Gwirio tocynnau ac arwain aelodau'r gynulleidfa i'w seddi
- Tywys aelodau'r gynulleidfa i fynedfeydd, allanfeydd a thoiledau
- Cefnogi'r Swyddfa Docynnau a staff Blaen y Tŷ i sicrhau bod y theatr yn rhedeg yn esmwyth, gan gynnwys cynorthwyo o bosibl gydag ymddygiad cwsmeriaid, anghydfodau a sefyllfaoedd brys
- Gwirio am faterion diogelwch a chefnogi staff i fynd i'r afael â'r rhain

Gofynion:

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch, yn syml, rydym yn chwilio am bobl gyfeillgar a hawdd mynd atynt gydag angerdd am y theatr. Os oes gennych chi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol, a'ch bod chi'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm yna byddwch chi'n ffitio'i fewn yn iawn. Oherwydd natur y rôl, mae'n rhaid i'n Gwirfoddolwyr fod yn heini yn gorfforol i ddringo i fynu ac i lawr grisiau'r awditoriwm.

Oriau:

Mae sioeau a digwyddiadau fel arfer yn disgyn ar benwythnosau, ond mae gennym rai sy'n cael eu rhedeg yn ddyddiol, fel y Panto Nadolig. Rydym yn gwahodd ein holl Wirfoddolwyr i rannu eu hargaeledd am ychydig wythnosau ymlaen llaw, i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich neilltuo i sioeau sy'n addas ar gyfer eich argaeledd.

Beth sy'n digwydd nesaf

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i wefan Theatr Pafiliwn y Rhyl a llenwch ein ffurflen fer. Yna byddwn yn eich gwahodd i mewn am sgwrs am y rôl ac ychydig o hyfforddiant.

